Adroddiad ar

# Ffrindiau Bach Tegryn

Canolfan Intergredig Tegryn
Aber-porth
Ceredigion
SA43 2EN

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Ffrindiau Bach Tegryn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Ffrindiau Bach Tegryn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Heather Davies-Rollinson a Leanne Marsh |
| Person â gofal | Wendy Davies a Gwawr Jones |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 9 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9:00yb – 3:15yp o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol yn unig |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi, ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 31/01/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 06/12/2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 10/06/2025 |
| Nid oes yr un plentyn yn y lleoliad yn dod o gartrefi ble siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Datblygu mwy o gyfleoedd i blant ddysgu am wahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth

A2. Mireinio a chysoni dulliau cofnodi arsylwadau pwrpasol i lywio cynllunio camau nesaf yn natblygiad y plant yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan y plant lais cryf yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser a ble maent am chwarae yn gyson, gan ddefnyddio'r amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored caeëdig mewn modd effeithiol a chreadigol.

Mae’r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn llawn brwdfrydedd. Maent yn ymdopi’n dda iawn wrth wahanu o’u rhieni a’u gofalwyr ac yn mynd ati i chwarae’n ddiffwdan. Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymgartrefu’n gyflym iawn, yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol cyson, ac yn teimlo’n gartrefol iawn yn y lleoliad. Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr ac yn gwybod eu bod yn cael eu parchu a’u clywed. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn teimlo’n hollol ddiogel yn y lleoliad.

Mae bron bob plentyn yn meithrin perthnasoedd cynnes a chlòs ag ymarferwyr ac yn gwybod y gallent sôn wrthynt am yr hyn y maent ei eisiau. Er enghraifft, maent yn gofyn am gwtsh pan maent yn ansicr neu’n dweud yn hyderus os ydynt yn dymuno mynd tu allan i chwarae.

Mae llawer o blant yn mwynhau symud yn ddiymdroi o un weithgaredd i’r nesaf ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau priodol. Er enghraifft, maent wrth eu boddau yn chwarae yn y gegin fwd gan ddynwared paratoi bwyd i’r ‘babi’. Mae’r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio mewn modd cadarnhaol â’i gilydd ac ymarferwyr, ac yn cymdeithasu a chwerthin yn hwylus wrth chwarae. Mae’r mwyafrif yn chwarae ochr wrth ochr â’i gilydd yn gytûn, gyda’r mwyafrif yn dechrau cyd-chwarae a chefnogi ei gilydd yn briodol. Er enghraifft, wrth gydweithio i dynnu a gwthio’r ddolen i bwmpio dŵr ac wrth wthio ffrind nôl ac ymlaen ar siglen yn yr ardal awyr agored.

Mae’r plant yn weithgar ac yn dysgu’n effeithiol drwy chwarae. Maent yn chwilfrydig iawn ac yn arbrofi â diddordeb brwd wrth balu yn y pridd am esgyrn dinosoriaid, er enghraifft. Mae bron bob un yn mwynhau cyfleoedd cyson i ddatblygu eu medrau corfforol, trwy gydbwyso’n ofalus wrth gerdded ar hyd unedau pren a blychau plastig i gyrraedd yr ochr arall.

Mae bron bob un o'r plant yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn gadarn, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio’r tŷ bach, golchi a sychu eu dwylo ac arllwys diod i’w cwpanau yn ofalus yn ystod ‘amser tocyn.’ Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau wrth gyflawni tasgau fel brwsio dannedd a hunangofrestru yn gynyddol annibynnol. Mae llawer o blant yn dyfalbarhau’n fwriadus wrth ddysgu ac yn dangos balchder wrth ddatblygu eu hannibyniaeth ymhellach, er enghraifft wrth ddal ati a llwyddo i wisgo a thynnu esgidiau glaw.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae bron bob un o'r plant, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da mewn ystod o fedrau o'u mannau cychwyn unigol. Mae medrau gwrando'r rhan fwyaf o blant yn gadarn, gan wrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau'r ymarferwyr ac yn eu dilyn yn synhwyrol. Er enghraifft, wrth gadw eu beiciau a'u helmedau yn drefnus yn y sied yn ystod cyfnodau tacluso.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau siarad, ac yn sgwrsio'n hyderus gydag ymwelwyr am eu gweithgareddau a'u profiadau. Mae bron bob un plentyn yn newydd i'r Gymraeg wrth gyrraedd y lleoliad ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud eu gorau i ddefnyddio'r Gymraeg yn annibynnol, gydag arweiniad ac anogaeth yr ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn ymuno'n frwdfrydig â chaneuon a rhigymau fel *'Dau gi bach'* wrth dynnu gwrthrychau yn chwilfrydig o'r 'cwdyn canu' fel rhan o'u harferion dyddiol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau ymgolli mewn llyfrau ffeithiol am greaduriaid a thrychfilod. Er enghraifft, maent yn mwynhau trafod y lluniau a sgwrsio yn yr awyr agored gyda'u ffrindiau ac ymarferwyr am sut mae penbyliaid yn datblygu i fod yn frogaod, gan ddefnyddio geirfa addas yn bwrpasol.

Yn ystod eu chwarae, mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau creu marciau pwrpasol gan ddefnyddio amrywiaeth dda o gyfryngau gwahanol yn yr ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan yn gynyddol annibynnol. Gydag anogaeth yr ymarferwyr, maent yn dechrau meithrin eu medrau ysgrifennu cynnar yn fwriadus wrth ymdrechu i ysgrifennu eu henwau ar sgrîn ddigidol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol addas mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Er enghraifft, maent yn dechrau datblygu cysyniadau mathemategol yn bwrpasol wrth chwarae gyda'r pwmp dŵr, er enghraifft wrth drafod offer llawn a gwag. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos dealltwriaeth dda o briodoleddau siapiau syml wrth ddewis tost o faint 'triongl bach' neu 'betryal mawr' yn ystod 'amser tocyn'.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio offer digidol yn lled annibynnol wrth ddefnyddio camerâu digidol yn bwrpasol i gofnodi eu dysgu yn dilyn gwneud darlun o falwoden a welsant yn yr ardal balu, er enghraifft.

Mae bron bob un plentyn yn meithrin medrau corfforol cadarn gan ddefnyddio ystod eang o gyfarpar chwarae mawr a bach gyda rheolaeth dda. Er enghraifft, maent yn reidio beiciau dwy a thair olwyn yn egnïol ac yn herio eu hunain trwy ddefnyddio'r offer dringo yn yr ardal awyr agored yn gynyddol annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnod hir wrth archwilio ardaloedd o ddiddordeb iddynt.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n dda. Er enghraifft, maent yn dangos dawn greadigol naturiol wrth greu delweddau dychmygus o benbyliaid a brogaod ac yn arbrofi â chregyn a thywod i greu patrymau hyfryd yn ystod ymweliad i’r traeth. Mae’r rhan fwyaf o blant yn arddangos medrau personol a chymdeithasol cadarn. Maent yn arddangos cwrteisi tuag at eraill ac yn chwarae gyda’i gilydd yn ddedwydd.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae ymarferwyr yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau'n dda ac yn gweithredu gweithdrefnau’r lleoliad yn effeithiol er mwyn cadw’r plant yn ddiogel. Mae ymarferwyr wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant ac maent yn hyderus ynghylch sut i weithredu petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau cadarn wrth ddelio ag unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau neu salwch ac yn cadw cofnodion cywir. Mae arweinwyr yn sicrhau bod digon o ymarferwyr i fodloni disgwyliadau'r safonau, ac o ganlyniad, goruchwylir y plant yn effeithiol. Mae gan bob ymarferydd dystysgrif cymorth cyntaf gyfredol.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach yn bwrpasol trwy ddarparu byrbryd iachus a maethlon a chynnig llaeth neu ddŵr i’r plant. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau hylendid bwyd cyfredol ac mae’r gweithdrefnau hylendid yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn rhyngweithio'n gadarnhaol iawn â'r plant. Maent yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y lleoliad yn gadarn ac yn gweithredu fel modelau rôl effeithiol. Mae ymarferwyr yn rhyngweithio’n naturiol a chadarnhaol â’r plant, gan wrando, cydweithio ac egluro mewn modd clir a gofalgar. Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl â’r plant ac maent yn eu trin yn garedig. Maent yn siarad â'r plant ar eu lefel nhw ac yn dangos cynhesrwydd a pharch gwirioneddol atynt. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn eu croesawu’n gynnes wrth iddynt hunangofrestru’n annibynnol ac yn eu hannog yn gyson i rannu sut maent yn teimlo. Mae ymarferwyr yn atgyfnerthu iaith glir a chywir wrth sgwrsio ac yn cynnig cysur a chefnogaeth gyson i’r plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn eistedd gyda’r plant yn ystod gweithgareddau neu’n chwarae wrth eu hymyl yn yr ardaloedd dysgu, gan wreiddio moesau fel cwrteisi mewn ffordd naturiol.

Mae ymarferwyr yn adeiladu perthynas dda iawn â’r plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o’u hanghenion a’u dymuniadau unigol. Maent yn annog hyder ac annibyniaeth y plant mewn modd caredig a sensitif ac yn dathlu pan maent yn llwyddo, er enghraifft wrth iddynt ddyfalbarhau i ddatrys problemau fel adeiladu pont. Mae ymarferwyr yn cefnogi plant trwy greu lle iddynt chwarae ynddo ac yn llwyddo i ymgorffori egwyddorion chwarae yn y ddarpariaeth yn briodol. Maent yn sicrhau cyfleoedd addas i’r plant ddatblygu amrywiaeth dda o fedrau yn gyson. Mae ymarferwyr yn annog plant i ddeall eu

hamgylchedd trwy gynnig profiadau fel dysgu am fyd natur a phlannu a dyfrhau blodau yn yr ardal awyr agored.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae cynlluniau effeithiol i'w cefnogi er mwyn ymateb i'w hanghenion yn fwriadus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio iaith arwyddo yn fedrus er mwyn meithrin medrau cyfathrebu plant sydd ag anghenion ieithyddol. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n agos a llwyddiannus ag ystod o asiantaethau er lles y plant. Rhennir gwybodaeth yn gyson â rhieni drwy sgyrsiau anffurfiol ar ddechrau a diwedd sesiynau, yn ôl yr angen.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n bwrpasol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cynnig profiadau gwerthfawr ac yn ymateb i anghenion y plant yn llwyddiannus. Maent yn addasu eu cynllunio'n synhwyrol i gynnal diddordeb a brwdfrydedd y plant. Er enghraifft, wedi i blentyn ddarganfod corryn yn yr ardal ddarllen, defnyddiwyd diddordeb a chwilfrydedd y plentyn i lywio'r cynllunio gan esgor ar gyfres o brofiadau dysgu ysgogol.

Mae profiadau dysgu ysgogol yn annog plant i ddatblygu'n archwilwyr hyderus yn eu hamgylchedd, er enghraifft drwy fwydo ac arsylwi ar dyfiant grifft broga a gofalu am flodau a llysiau yn yr ardal awyr agored. Mae'r profiadau hyn yn dwysáu dealltwriaeth plant o'r byd maent yn byw ynddo a sut i drin popeth byw â gofal a pharch.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'r ddarpariaeth yn ofalus i hybu dewis ac annibyniaeth. Mae llawer o blant yn gwneud dewisiadau pwrpasol am offer a deunyddiau yn y 'gweithdy saer', ac yn dangos ymwybyddiaeth aeddfed o bwysigrwydd gweithio'n ddiogel wrth wisgo sbectol pwrpasol cyn defnyddio offer go iawn.

Mae ymarferwyr yn holi plant yn fedrus ac yn ymestyn eu hiaith yn fwriadus. Maent yn rhoi arweiniad i'r plant yn hytrach na darparu datrysiadau ac atebion, er enghraifft wrth annog plant i feddwl am sut i afael y morthwyl yn gywir cyn taro'r hoelen yn y pren. Maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i blant glywed geirfa a phatrymau safonol y Gymraeg drwy siarad a chanu parhaus. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda trwy annog plant i gymryd rhan mewn gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn y dref ble maent yn gwisgo gwisg draddodiadol Gymreig.

Mae ymarferwyr yn annog plant i gymryd diddordeb mewn storïau trwy greu ardal lyfrau groesawgar i blant, sy'n codi eu hymwybyddiaeth am lyfrau yn bwrpasol. Mae ymarferwyr yn cefnogi plant i ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n fwriadus; er enghraifft, maent yn annog plant i ddefnyddio sialc i ymarfer ffurfio llythrennau a rhifau yn yr ardal farcio.

Mae ymarferwyr yn cyflwyno plant i fyd digidol yn fwriadus trwy ddarparu ystod briodol o adnoddau fel ffôn symudol, microdon, camerâu a thiliau yn yr ardaloedd. Mae ymarferwyr yn meithrin medrau rhifedd y plant yn fwriadus; er enghraifft, caiff y plant gyfleoedd defnyddiol i gyfrif coesau mochyn y coed a chymharu hyd mwydod yn yr ardal balu. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau echddygol mân a datrys problemau yn llwyddiannus wrth eu hannog i geisio dulliau gwahanol wrth ymdrechu i dynhau sgriwiau gan ddefnyddio ystod dda o offer gyda hyder cynyddol.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau y tu hwnt i'r lleoliad i ymestyn profiadau dysgu plant. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r ganolfan adwerthu leol i brynu hadau a phridd er mwyn tyfu a gofalu am blanhigion yn y lleoliad. Mae hyn yn darparu cyfleoedd pwrpasol i blant feithrin ymdeimlad o berthyn i'w cynefin.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Darperir cyfnodau i blant fyfyrio'n ddyddiol, er enghraifft trwy adrodd gweddi'n hyfryd yn Gymraeg cyn cyfnod 'amser tocyn.' Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i blant ddysgu am fywydau a chredoau pobl o ddiwylliannau eraill.

Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn defnyddio asesiadau ac arsylwadau yn rheolaidd i nodi'r hyn y mae'r plant wedi'i ddysgu, i osod targedau ac i ddangos cynnydd dros amser yn bwrpasol. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob amser yn cofnodi'r dysgu yn ddigon cyson. O ganlyniad, nid ydynt bob tro'n defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon pwrpasol i lywio'r camau nesaf yn nysgu a datblygiad y plant.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a glân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. O ganlyniad, maent yn hybu diogelwch a llesiant y plant yn effeithiol. Mae ganddynt drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac maent yn dilyn gweithdrefnau diogelu effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Mae'r ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda er mwyn sicrhau eu diogelwch. Maent yn gweithredu ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr yn effeithiol ac yn asesu risgiau yn dda, sy'n cynnwys gweithgareddau, ardaloedd chwarae ac ymweliadau. Mae arweinwyr yn ymarfer driliau tân yn gyson er mwyn sicrhau bod y plant a'r ymarferwyr yn gyfarwydd â'r trefniadau i'w dilyn pe bai rheswm iddynt adael yr adeilad ar frys. Maent yn sicrhau bod gweithdrefnau diogelwch, fel yswiriant dilys, yn eu lle. Mae arweinwyr yn cynnig ardal benodol ger y brif fynedfa sy'n arddangos gwybodaeth am ymarferwyr, gweithdrefnau diogelu a pholisïau penodol.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd sydd yn groesawgar a chynnes gyda digon o le i'r plant i chwarae a symud o gwmpas yn rhwydd. Maent yn sicrhau bod plant yn meithrin

ymdeimlad cryf o berthyn trwy arddangos esiamplau o'u gwaith a ffotograffau ar arddangosfeydd pwrpasol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ganddynt amrywiaeth eang o ddodrefn a chyfarpar o ansawdd da, sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Maent yn darparu adnoddau amrywiol i blant ar gyfer eu datblygiad ac mae'r rhain wedi'u gosod fel eu bod yn hygyrch iddynt. O ganlyniad, mae gan blant fynediad rhwydd at gyfarpar sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau yn annibynnol a dilyn eu diddordebau. Mae'r adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da, ac mae'r ardaloedd chwarae a'r offer yn cael eu glanhau'n rheolaidd.

Mae'r amgylchedd awyr agored caeëdig yn cynnig cyfleoedd diddorol ac amrywiol i blant ddysgu a datblygu eu hymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas. Mae'r ardal hefyd yn darparu heriau a chyfleoedd buddiol i blant feithrin medrau corfforol a chymryd risgiau sy'n briodol i'w hoedran, fel dringo a chydbwyso. Yn yr ardal allanol a thu fewn, mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod addas o ddeunyddiau naturiol a darnau rhydd ar gael i'r plant eu harchwilio. Maent yn datblygu ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn barhaus i sicrhau bod y plant yn chwilfrydig yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, maent wrthi'n datblygu ardal berfformio tu allan er mwyn ymestyn y ddarpariaeth i feithrin medrau mynegiannol a chreadigrwydd y plant ymhellach.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr a'r pwyllgor rheoli yn cyfleu gweledigaeth glir sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a datblygiad plant. Maent yn frwdfrydig ac yn angerddol am waith y lleoliad. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol i greu cymuned ddysgu sydd ag awyrgylch diogel a hapus i'r plant. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn rhoi darlun cywir o'r lleoliad ac mae ystod o bolisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg defnyddiol, sy'n cael eu cymhwyso'n bwrpasol yn ymarferol.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel yn gyson drwy gefnogi a herio pawb i wneud eu gorau. O ganlyniad, mae arweinwyr yn llwyddo i greu ethos cefnogol a chynhaliol lle mae ymarferwyr yn cael eu gwerthfawrogi. Fel rhan o drefniadau anwytho ymarferwyr cyflenwol, maent yn sicrhau bod trefniadau dyddiol cytûn yn cael eu rhannu'n bwrpasol a bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth glir o'u rolau. Er enghraifft, mae arweinwyr yn cynnwys ymarferwyr yn addas mewn cynllunio profiadau dysgu a chwarae ar gyfer y plant sy'n sicrhau eu dealltwriaeth o bwrpas y gweithgareddau. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu gwariant y gyllideb a grantiau yn erbyn targedau yn effeithiol ac yn dyrannu adnoddau'n ddoeth, er enghraifft wrth barhau i fuddsoddi yn yr amgylchedd dysgu i gefnogi lles, chwarae a dysgu'r plant.

Mae arweinwyr yn cymryd camau buddiol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol fel dilyn prosesau recriwtio diogel ac amserol. Maent yn sicrhau bod y weithdrefn oruchwylio a gwerthuso ar gyfer ymarferwyr yn bwrpasol ac yn arwain at bennu targedau cytûn priodol. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau atebolrwydd yr

ymarferwyr o ran safon y ddarpariaeth a deilliannau plant yn ogystal â chynnig cyfleoedd ystyrlon iddynt ddatblygu'n broffesiynol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio dulliau pwrpasol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn y lleoliad. Mae hyn yn cael effaith gadarn ar fedrau cymdeithasol ac emosiynol y plant.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o drefniadau hunanwerthuso effeithiol er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn rheolaidd er mwyn gwella'r ddarpariaeth yn barhaus. Er enghraifft, maent wedi adnabod yr angen i fireinio a chysoni trefniadau cytunedig o ran cofnodi arsylwadau ac i hyrwyddo gwaith clodwiw'r lleoliad yn y gymuned yn fwy rheolaidd.

Mae gan arweinwyr gysylltiadau cryf â'r ysgol leol. Trwy amryfal drefniadau pontio bwriadus, fel ymweliad i'r traeth ar y cyd â'r disgyblion, mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n llwyddiannus i sicrhau bod lles y plant yn flaenoriaeth gan bawb. O ganlyniad, mae'r plant yn teimlo'n hyderus ar drothwy'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol ag ystod o bartneriaid i wella iechyd, lles a dysgu plant. Mae'r rhain yn cynnwys swyddogion Dechrau'n Deg, therapyddion lleferydd a gweithredu ar gyngor a roddir gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol yn amserol.

Mae gan yr arweinwyr a'r ymarferwyr berthynas agos â rhieni a gofalwyr. Er enghraifft, maent yn eu gwahodd i ddathlu diwedd cyfnod eu plentyn yn y lleoliad mewn seremoni arbennig. Yn ogystal, caiff darpar rieni, gofalwyr a'u plant eu gwahodd i barti ar ddiwedd y seremoni fel eu bod yn cael cyfle gwerthfawr i ymgyfarwyddo â'r adeilad ac i drafod hoffterau ac anghenion eu plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/08/2025